



Ffordd Nebo, Llanrwst, Conwy LL26 OSD
Rhif Ffôn / Telephone: 01492 642800

Gwefan / Website: www.ysgoldyffrynconwy.org
Ebst / Email: cyff@dyffrynconwy.conwy.sch.uk

Pennaeth / Head
Owain Gethin Davies

Annwyl Rhiant/Gwarcheidwad

Prydau Ysgol Sodexo - Alergedd Bwyd

Ysgrifennaf atoch i'ch hysbysebu am weithdrefnau Sodexo i ymdrin ag alergedd bwyd. Mae gan Sodexo flynyddoedd lawer o brofiad yn y maes arlwyo ysgolion ac o ganlyniad i wybodaeth a gafwyd gan rieni, cleientiaid ac arbenigwyr proffesiynol mae'r cwmni wedi sefydlu gweithdrefnau i reoli alergedd bwyd y disgyblion.

Gofynnir i chi lenwi ffurflen alergedd os oes gan eich plentyn alergedd bwyd, er mwyn ein cynorthwyo i ddiwallu eu hanghenion. Mae'r ffurflen ar gael ar safle we'r ysgol: ysgoldyffrynconwy.org dan adran gwybodaeth am yr ysgol.

Os nad oes gennych fynediad i wefan yr ysgol, cewch ffonio derbynfa'r ysgol ar 01492 642 800 a gofyn am gopi papur. Mae rhaid dychwelyd y ffurflen hon cyn diwedd Mis Rhagfyr mewn unrhyw flwyddyn academaidd.

Bydd dychwelyd y ffurflen hon cyn gynted â phosib yn rhoi cyfle i Sodexo werthuso a dehongli'r wybodaeth lle bo angen, a'u galluogi i wneud trefniadau neu addasiadau penodol i sicrhau fod eich plentyn yn cael prydau sy'n addas i'w hanghenion. Gofynnwn i chi hefyd ein hysbysu o unrhyw newidiadau a allai effeithio ar ofynion dietegol eich plentyn.

Mae rhaid cynnwys un ai llythyr meddyg neu lythyr gan ddietydd i gyd-fynd â manylion yr alergedd ac esbonio'r gofynion dietegol. Bydd llythyr meddygol yn sicrhau fod staff Sodexo yn gallu adnabod alergenau penodol mewn cynhwysion a threfnu diet priodol i'r disgybl.

Un enghraifft i danlinellu'r angen am lythyr meddygol yw plentyn ag alergedd i wyau. Bydd y ffurflen alergedd yn amlygu alergedd wyau a bydd angen llythyr meddygol hefyd. Ar ôl edrych ar y llythyr meddygol efallai y byddem yn gweld mai alergedd i wyau amrwd sydd gan y disgybl, a'u bod yn gallu bwyta wyau wedi coginio a chynhyrchion bwyd sy'n cynnwys wyau. Bydd y wybodaeth hon yn hanfodol er mwyn sicrhau ein bod yn darparu diet sy'n addas i alergedd eich plentyn a hefyd yn atal cyfyngiad pellach i'w deiet.

Gobeithiwn y gallwch ein cynorthwyo i adnabod alergedd bwyd eich plentyn yn ddi-oed, a darparu'r holl wybodaeth angenrheidiol er mwyn sicrhau darpariaeth ddiogel o brydau.

Os hoffech wybodaeth bellach am Weithdrefnau Alergedd Bwyd Sodexo peidiwch ag oedi cyn cysylltu â'r ysgol.

Yn gywir
Owain Gethin Davies
Pennaeth

www.ysgoldyffrynconwy.org

   @ysgdyffrynconwy